

Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Diwygio Etholiadol) (Cymru) 2026

Dull craffu

Gorffennaf 2026

Cefndir

1. Gosodwyd y **rheoliadau** ar 23 Mehefin 2026 ac maent yn darparu i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal cofrestru etholiadol heb gais, i ddod i rym mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol gan ddechrau gydag etholiadau awdurdodau lleol 2027. Mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn benodol a nodir yn **adran 19 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024**, sy'n rhoi cyfle i'r Senedd graffu ymhellach ar reoliadau sy'n gwneud diwygiadau etholiadol parhaol yn dilyn cynllun peilot.

2. **Cyfeiriwyd** y rheoliadau atom gan y Pwyllgor Busnes i graffu arnynt, gyda dyddiad cau o 25 Medi 2026 ar gyfer cyflwyno adroddiad. O dan y weithdrefn a bennir yn adran 19 o'r Ddeddf, gall pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar reoliadau diwygio etholiadol argymhell y dylid cymhwyso gweithdrefn graffu estynedig o 60 diwrnod.



Ein barn ni

3. Buom yn ystyried ein dull o graffu ar y rheoliadau yn ein cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026 a chytunwyd y dylid cymhwyso'r weithdrefn graffu estynedig o 60 diwrnod.

Argymhelliad 1. Dylid cymhwyso'r cyfnod craffu estynedig o 60 diwrnod a bennir yn adran 19 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ar gyfer rheoliadau diwygio etholiadol perthnasol i Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol Heb Geisiadau) (Diwygio Etholiadol) (Cymru) 2026.